

Clebran

2013




YSGOL GYMRAEG ABERYSTWYTH



• Cymreictod • Parchu ein gilydd • Gwneud ein gorau glas •



Trip plant y prynhawn






pawb yn mwynhau
yn y pwll peli



Tymor yr Haf!





Coginio pitsa a chrempog



Gweithgareddau entrepreneuraidd



Cystadleuaeth sioe Aberystwyth



Addurno plât papur



Dro i 'Pets at home'



Dewis pysgod
aur i'r
dosbarth

Mabolgampau







ras y twnnel



ras y tedi







Yr ardal allanol



Ymweliad y Frigad dân



Dyma ddosbarth Derbyn Miss Morgan
wrthi'n brysur yn chwynnu yn yr ardd
natur



Diwrnod rhyngwladol



Yr Alban



Dosbarth Derbyn

Dosbarth Derbyn M
yn ymarfer tuag at
y Mabolgampau



Dewi




Caradog



Arthur



Bechgyn rhagras 1



Bechgyn rhagras 2



Merched rhagras 1



Merched rhagras 2





Gardd Taid



Cafodd Dosbarth
Derbyn Miss Morgan
amser braf yng
ngardd Taid yn
edrych ar yr amrywiol
flodau a llysiau.

Buodd dosbarth derbyn Miss Jones yn brysur yn
plannu corn melys yn yr ardd natur







A large group of children, mostly of preschool age, are posed in several rows in front of a building. They are all wearing winter clothing, including coats, hats, and scarves. The building behind them has a brick facade and a large glass block window. The text 'Heddlu Aberystwyth' is written in a large, blue, handwritten-style font across the top of the image. There are some signs on the building, including a yellow triangular warning sign on the left and a blue sign with a white symbol in the center. The ground in front of the children is paved with light-colored bricks.







Derbyn J

Dyma luniau ohonom wedi
efelychu ein gwisgoedd
nofio drwy eu peintio yn
ddeiniadol a lliwgar!





Derbyn J



Blwyddyn 1

Dyma luniau ohonom ni yn y dosbarth ac yn yr ardal ddysgu allanol yn mwynhau pob math o weithgareddau.

Dyma ychydig o waith celf.



Dyma ni yn yr ardal chwarae rôl.



Dyma ni yn yr ardal tywod a dŵr yn chwilio am drysor ac yn cymharu cynwysyddion.



Mae'n waith caled yn yr ardal adeiladu!



Buom yn brysur iawn yn paentio llong Huw Puw.



Dyma ni yn yr ardal berfformio.



Dyma ni yn Siop Jim Pob Dim. Oes rhywun eisiau prynu 'sgidiau?



Dyma ni yn plannu tatws yn yr ardd, gobeithio fyddant yn flasus!





DIWRNOD MÔR—LADRON



Bu cyffro mawr a llond y lle o fôr-ladron ym mlwyddyn 1 ar ddydd Gwener, Mehefin yr 21ain. Bu'r plant yn brysur yn gwneud pob math o bethau hwyliog yn y dosbarth.



DIWRNOD MÔR—LADRON



Dyma ni yn ein giwisgoedd yn gwenu i'r camera!

Cawson dipyn o sbri yn y parc yn bwyta ein brechdanau roedden wedi eu paratoi yn y bore.

Cwestiwn i blant dosbarth Mrs Wigley....

Beth mae Mam yn hoffi?.....

Mae Mam yn hoffi.....*glanhau*
-Efa

Mae Mam yn hoffi.....*mynd i'r*
parc — Opal

Mae Mam yn hoffi.....*gwneud*
'Zumba' - Phoebe

Mae Mam yn hoffi.....*darllen yn*
y bath — Tom

Mae Mam yn hoffi.....*ctrio dydd*
sul — Demi

Mae Mam yn hoffi.....*tê poeth*
— Mairwen

Mae mam yn hoffi.....*snorelo*
- Ceinwen

Mae Mam yn hoffi.....*chwaree*
gemau — Cari

Mae Mam yn hoffi.....*mynd i*
Pffrinc — Jonah

Mae Mam yn hoffi.....*mynd i'r*
siopa — Maccsen

Mae Mam yn hoffi.....*blodeu*
— Megan

Mae Mam yn hoffi.....*gweld*
ffrindiau — Abi

Mae Mam yn hoffi.....*mynd i*
Gaerdydd— Daniel Philips

Mae Mam yn hoffi.....*cogtlo*
- Caitlin

Mae Mam yn hoffi.....*mynd am*
dro — Tomi

Mae Mam yn hoffi.....*mynd ar*
wyliau — Rowan

Mae Mam yn hoffi.....*dawnsio*
- Ffion

Mae Mam yn hoffi.....*gwyllo*
teledu— Millie

Mae Mam yn hoffi.....*cadw'n*
heini - Mari Lois

Mae mam yn hoffi.....*rhedeg*
-- Nel

Mae Mam yn hoffi.....*helfa*
trysor — Reuben

Mae Mam yn hoffi.....*siopa yn*
Next — Tomos

Mae mam yn hoffi.....*mynd i'r*
treeth - Mari Leisa

Mae Mam yn hoffi.....*mynd i*
Canada — Beatrix

Mae Mam yn hoffi.....*cacen*
stocled — Efan

Mae Mam yn hoffi..... *siopa*
- Coel

Mae Mam yn hoffi.....*beicio*
- Eleias

Mae mam yn hoffi.....*tscluso*
— Elen

Mae Mam yn hoffi.....*mynd i*
nofio- Daniel Oliver

Beirdd i'w Cioed

Dyma ni ar gefn ein beiciau, pob un ohonom yn gwisgo helmed rhag ofn i ni ddisgyn! Cawsom dipyn o hwyl yn mynd o gwmpas yr iard, pob un yn cymryd tro, rhai yn pedlo am y cyflyma' ond roedd yn anodd pedlo ar y cae!



CERBYDAU

Mae pob un o blant y dosbarth wedi bod tu hwnt o brysur yn cynllunio, creu ac addurno cerbyd. Roedd rhaid casglu pentwr o focsys o bob maint er mwyn i'r plant medru greu siap cerbyd eu hun. Roedd angen lot o dap selo a llawer o baint a llwyth o amynedd! Dyma ein campweithiau unigryw.

Cerbydau

Blwyddyn 1W





Cerbydau
Blwyddyn 1 R

Wythnos Fathemateg



llyfr trymaf



moronen hiraf



sosban â'r cyfaint fwyaf



afal â'r cylchedd fwyaf.

tywel â'r arwynebedd fwyaf.



Gwibdaith Blwyddyn 2

Canolfan y Barcud Tregaron



*Cawsom hwyl yn
ymarfer ysgrifennu
gan ddefnyddio
pen inc.*





Diwrnod Rhyngwladol



Ŵr Eidal



Hydref 5ed
2012





Diwrnod Rhyngwladol

Yr Eidal 2012





Blasu jam mwyar duon





Diwrnod Plant Mewn Angen




Tachwedd 16eg 2012





2012






Siapiau 2D a 3D





Siapiau 2D a 3D





Diwrnod Elfed



Celf Eisteddfod yr Urdd 2013



Patrymau'r amgylchfyd oedd thema
Eisteddfod yr Urdd eleni, felly
penderfynom gystadlu yn y gwehyddu.

Gan Chelsea.



Gwnaethom wehyddu golygfa o'r arfordir,
caeau, yr haul a'r awyr. Gan Elis Owen-Jenkins

Roedd wedi cymryd llawer o
ymdrech i gwblhau'r gwehyddu a
chafodd pawb o flwyddyn 3 y cyfle i
gymryd rhan.

Gan Annest

2il yn y Sir




2il yn y Sir



3ydd yn y
Sir

Celf Eisteddfod yr Urdd 2013



Roedd y ddau
ddosbarth wedi creu
artefact i gynrychioli'r
amgylchfyd.

Gan Lili-Gwen

Defnyddiom 'broc
mor' a hen palets a
ddarganfuwyd ar y
traeth. Gan Deiniol.

1af yng
Nghymru

Enillodd y pysgodyn cystadleuaeth
'Arteffact' Eisteddfod yr Urdd.

Gan Osian.

Cefais y cyfle i gystadlu yn y gystadleuaeth
Gemwaith i Flwyddyn 3 a 4 yn Eisteddfod
yr Urdd eleni. Cefais y drydydd wobwr yng
Ngheredigion.

Gan Anna

Roedd angen i bawb
gasglu broc mor, cregyn
a brigau o'r traeth.

Gan James

2il yn y Sir



3ydd yn y
Sir



Mexico



Ym mis Hydref cawsom ein Diwrnod
Rhyngwladol. Roedd e'n llawer o hwyl.

Tomos Garrero

Roeddwn wedi edrych ar Fecsico a
gwisgo dillad o'r wlad.

Troy Morris

Cawsom Doritos, Wraps cyw iâr a salsa
i'w fwyta.

Siôn Ifan

gracias - diolch

hola - helo

buenos días - bore da

si - ie

no - na


adios - hwy/fawr



Mecsico

Edrychom ni ar luniau o Mr Morgan ym
Mecsico ar ei fis mêl. A mwynhaeais i'r
diwrnod yn fawr.

Gan Angharad



Cawsom gyfle i flasw bwydydd o
wledydd eraill yn y neuadd.

Gan Niamh

Cawsom gyfle i chwarae gêm gyda'r
Pinata a chael losin allan ohono.

Gan Osian



Buom yn peintio lluniau o
Fecsico ar botiau ac yna
plannu hadau tsili ynddyn
nhw.

Gan Owen.

CHWARAEWRAIG MENYWOD RYGBI CYMRU

SIONED HARRIES YN YMWELD Â BL3



Daeth Sioned Harries i siarad gyda blwyddyn 3 i gyd am ei gyrfa rygbi o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Gan Annie.

Aethom allan i'r iard a dangosodd Sioned rhai o'r sgiliau mae hi'n defnyddio gyda thîm menywod Cymru.

Gan Jac

Dangosodd y crysau roedd yn gwisgo i chwarae rygbi a'r capiau 'roedd hi wedi ennill i Gymru.

Gan Mia.

Ein ffrindiau o'r Ffindir

Fe ddaeth athrawon o ysgolion Denmarc, Y Ffindir, Iwerddon, Twrci a'r Eidal i'n gweld yn ddiweddar. *Gan Elis Ginn.*




Daeth Elina, athrawes o'r Ffindir i'r ysgol ym Mis Mai i'n gweld. *Gan Elen.*

Fe wnaethom ni gardiau i ddanfon 'nol i'r Ffindir gydag Elina. Enw fy ffrind i yn y Ffindir yw Juuso. *Gan Dylan.*


Roedd Mrs Davies wedi bod i'r Ffindir ar ddechrau'r flwyddyn ac mae'n braf gallu cadw mewn cysylltiad gyda dosbarth 2B Ysgol Martinniemi.

Gan Meilyr





Fframiau a m i a u Bl3



Dyma fframiau Blwyddyn 3D. Maen nhw'n lliwgar a doniol.
Gan Cai.

Yn ein gwersi Dylunio a Thechnoleg boom yn creu fframiau i ddal llun.
Gan Bertie

Ein taith i Morrisons

M
MORRISONS

Hoffais gerdded o amgylch y siop, a gweld cannoedd o rawnfwydydd gwahanol. Fy hoff un i yw Jordan's Crunchy.

Caleb



Mi wnes i fwynhau crwydro o amgylch y siop a gwario £1.

Martha

Thema blwyddyn 3 yn rhymor yr haf yw "Y Farchnad", felly aethom fel blwyddyn am fore i siop Morrisons i ddysgu o ba wledydd y daw y ffrwythau a'r llysiau, a gweld y dewis o rawnfwydydd sydd ar werth yn y siop.

Ella



Prynais i ddiod yn ogystal a siocled—rhag ofn fod gormod o syched arnaf!

Aled



Gwariais i fy arian i gyd ar gar bach gwyrdd!

Josh

Mi wnes i fwynhau dysgu o ble y daw'r holl ffrwythau.

Efan Siôn.

Roedd dewis mawr iawn o losin yn y siop—roedd yn anodd dewis un i'w prynu!

Elen Madrun

Roeddwn i wedi mwynhau dysgu am y llysiau—rydw i'n hoff iawn o foron!

Brandon



Mi wnes i fwynhau prynu siocled, a bwytais i'r cyfan fy hun!

Luned




Roeddwn wedi mwynhau gweld yr holl afalau oedd ar werth—afal yw fy hoff ffrwyth.

Efan Gwyn



Celf blwyddyn 3




Noa



Maria



Morgan



Deian



Cai W



Ellie



Adam



Fflur



Anna

Cynllun entrepreneuriaeth blwyddyn 3



Roedd cael cyfle i
wneud gwaith ffelto yn
llawer o hwyl. Byddwn
i'n hoffi gwneud mwy
o hyn yn y dyfodol!

Mabli Gwynne



Roeddwn i wedi
mwynhau creu darlun
diddorol allan o wllân.
Roedd yn edrych fel
cynffon morfil wrth i'r
haul fachlud!

Joseph Gorman

Roedd yn waith
anodd—roedd fy
mreichiau i wedi
blino erbyn y
diwedd!

Ynyr.



Fy hoff ran i o'r broses oedd sgrwbio'r
gwlan gyda'r sebon a'r dŵr. Roedd
llanast mawr, ond roeddwn yn hapus
iawn gyda fy ngwaith yn y diwedd.

Owen Pugh

Roeddwn i'n hoffi'r ffelto'n fawr iawn, ond mae
angen llawer o ymarfer arnaf!

Gwion.

Defnyddiais i gymysgedd o liwiau—oren, melyn,
gwyn a glas. Roedd yn edrych yn hyfryd.

Siôn G.



My Mother

Blwyddyn 3

My mother

My mum is called Marie and she works in the university. She is 43 years old. Her favourite holiday was going to France because we could not eat breakfast in bowls so we had to eat out of cups. She lives in Ystymtuen in Wales. Her hair is black and sparkly. She has brown lovely eyes. She has 2 daughters and one son. She enjoys hugging me. My mum is very funny. She says lots of jokes. I remember mothers day and I gave her lots of cards. She enjoyed mothers day and so did I. She is great. She is the best mum in the world.

By Marcie xxx

My Mother

My Mum is called Sara. She is 36 years old. She works in the university as a filmmaker. Her favourite food is sushi. She lives in Aberystwyth with me, Siôn and Celyn (my brothers) and my Dad. Her hair is yellow and it goes down to her shoulders. She has blue eyes like the rest of the family. She has one daughter and two sons. She enjoys having a sort of adventure in the woods. Her hobby is reading, but she doesn't really get much of a chance because of Siôn. One time mum and I made a mermaid out of clay and found some shells to decorate it, it looked very pretty, we were in Scotland at that time. I remember when me and mum walked 4 miles together and told stories to each other and it was really fun. My mum is a very good storyteller. She is very good at cooking. Sometimes she can be quite silly. She is often very tired because Siôn my baby brother is awake half the night. When I see her, she always makes me feel happy. I love my mum. She is the best in the world. She is full of friendship and humour. She is always trying to work hard to make my life happy and fun. I am so lucky to have a mum like her. She is always making me feel happy when I feel sad, and she is always there to help me. When she is angry she always makes up for it. She is very, very, very nice.

By Lena.

My Mother

My mother is called Angela. My mother is 43 years old. (She wishes she was 34) Her favourite colour is Green. And her favourite artist (singer) is Jon Bon Jovi. I think her favourite memory was when we went to Fuengirola, because we met my father's friend. (It's not about him so I won't talk much about him this time) I forgot his name but he had a dog called Seamus. Then we went to my uncles bar called Bar-Lacito, you can see what it's like inside on the website at www.barlacito.fuengirola.com, well I think that's right. My uncle always let me and my Silly Steff have free drinks, and when we finished in the bar we walked, that's right, walked, all the way back to my uncles' flat.

And some last short words for my mum

Everybody says their mother is the best mother, but they're wrong. MINE IS!!!!!! HAHHAHA!!!!

And a little tiny short song for MUMMY!!!

My mum, mum, mum, is the best, best, best, in the world, oh yeah, oh yeah, oohh yeah! She should have a break, break, break, from her work, work, work, wow for once, wow FOR ONCE, I.O.U. ALL MY LOVE!

TO ANGELA DAVIES

BY CAITLIN EVANS

My Mother

My mother is called Cathryn. She is 32 years old, my mother has just had a new job. Her favourite food is toast, her favourite holiday was when we went to Disney Land Paris. My mother loves it when I help her, she lives in Rhydyfelin. She has a husband and 3 children. She has blonde hair and bright red lips, she has blue sparkling eyes. She enjoys cooking, my mother's hobby is watching Casualty! I remember when me and my mother watched Nanny McPhee, her favourite colour is purple! Her best friends are Nadine, Rachel and Leanne. Her favourite animal is a guinea pig.


By Isaac

Cychod Pŵer

BI4E



Yn gyntaf byddwn yn creu ffrâm allan o bren bolsa i wneud gwaelod i'r cwch. Buon ni'n defnyddio llif er mwyn llifio'r pren a chreu'r ffrâm. Yn ail buom yn gwneud papier mache a rhoi dros y caban ac wedyn paentio ar ôl iddo sychu. Yn olaf roedd angen i ni ddefnyddio batri, motor, swits, gwifrau a propelar er mwyn creu pŵer i'r cwch i deithio ar hyd y dŵr.





Y Rhosyn Aur



Y Diflannwr



Y Lladdwr Lloerig


Yr Enfys Braf



Y Tonnau Streipiog



Y Cawr Cŵl



BI 4E Yn yr Ardd



Gwibdaith BI4 E



Cyfeiriannu yn Ynys Hir



Yn Ynys Hir defnyddion ni y rhwydi yma er mwyn darganfod
pa greaduriaid sy'n byw yn y glaswellt. Chwilion ni chwilogod,
brogaod, gwenyn, malwod, mwydod, pili pala a gwas y neidr.





Aethon ni i Ynys Hir a cherddon ni i
lawr i'r pyllau dŵr a ffeindion ni
lawer o greaduriaid yn cynnwys
rhain: larfa gwas y neidr, larfa
chwil en blymio, pysgod bach a
llawer mwy o bethau diddorol!



Chwilio am greaduriaid yn y gwair




Cyflwynwyr rhaglen deledu Springwatch
a oedd yn ffilmio yn Ynys Hir.

Springwatch



Y PWLL DŴR

Ar ein ffordd i'r pwll dŵr.





Gwarchodfa Natur Ynys-Hir



Ar y 16eg o Orffennaf 2013, aeth blwyddyn 4 ar wibdaith i Ynys Hir. Gwarchodfa Natur yw Ynys Hir sy'n gofalu am amrywiaeth o anifeiliaid, planhigion a chreaduriaid bach.



Osian, Siôn a Ethan
yn darllen map.




Map o'r warchodfa natur
RSPB Ynys Hir




Dyma Lotus, Cadi, Hannah a Lucie yn ceisio
penderfynu y ffordd cyflymaf i'r pwll dŵr




Diwrnod Rhyngwladol



Ffrainc




DIWRNOD
PLANT MEWN ANGEN
2012



Castell Henllys

Cawsom amser wrth ein boddau yng Nghastell Henllys eleni. Teithiom yn ôl mewn amser i Oes yr Haearn a daeth y Celtiaid i ymosod arnom ni! Buom yn gweithio'n galed am y diwrnod cyfan yno. Cawsom adeiladu wal tŷ crwn a buom yn gwehyddu basgedi. Buom hefyd yn nhŷ crwn y cogyddes yn malu ceirch er mwyn gwneud blawd ac yna'i gymysgu â dwr er mwyn pobí bara ar y tân agored.



Castell Henllys



Diwrnod Rhyngwladol




Diwrnod hwylus iawn oedd ein Diwrnod Rhyngwladol eleni. Ein gwlad ni ym mlwyddyn 5 oedd Yr Ariannin. Daethom i'r ysgol yn ein gwisgoedd addas a chawsom ymweliad diddorol wrth Aled, Cymro lleol, a'i wraig o'r Ariannin, Angeles. Roedd y 'Dulce De Leche' a ddaethant i ni drïo yn flasus iawn, roedd yn blasu'n debyg i garamel melys iawn, iawn! Yna, cawsom flas diddorol ar wledydd eraill y byd draw yn ein neuadd newydd.



Diwrnod Rhyngwladol





Glan Ilyn 2013



Cawsom amser wrth ein boddau yn gwlychu yng Nglan-llyn eleni! Buom yn brysur iawn yn can-drysor, chwaraeon rafft, a chyfeiriannu.. Cawsom helpa yn y disgo. Roedd y cwrs rhaffau yn her anturus iawn ac roedd tipyn ohonom yn crynu fel dail y coed! Braf hefyd oedd cael ymlacio a mwynhau yn ystod y daith llyn a'r tywydd bendigedig. Cawsom hefyd hwyl yn rhannu ystafelloedd gyda'n ffrindiau ac roedd y bwyd yno yn flasus iawn!




Glan Hyn 2013




Yr Arddangosfa Wyddoniaeth



Efelychu Kyffin Williams




Efelychu Kyffin Williams



Blwyddyn 6

2013




Atgofion wrth ymadael...



Gwilym

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol oherwydd rwy'n hoffi chwarae pêl-droed a rygbi. Fy hoff bwnc arall yw Celf oherwydd rwy'n eitha da ynddo ac mae'n hwyl. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn adeiladwr oherwydd rwy'n hoffi adeiladau. Fy hoff atgof yn yr Ysgol Gymraeg yw mynd i Stadiwm y Mileniwm pan aethom i aros yng Ngwersyll yr Urdd Caerdydd. Fy hoff atgof arall oedd yn y dosbarth Meithrin pan oedden ni'n rollo lawr y bryn bach – roedd hynny'n hwyl!



- ★ Fy hoff chwaraeon yw criced
- ★ Fy hoff fwyd yw sgłodion a sôs coch!



Ethan

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Celf oherwydd rwy'n hoffi tynnu lluniau efo pensil, yn enwedig pethau skyrim. Fy ail hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol, a fy hoff chwaraeon yw rhedeg trawsgwlad. Pan rwy'n hŷn hoffwn i fod yn beiriannydd neu yn bensaer. Fy hoff atgof o'r Ysgol Gymraeg yw mynd i Lan-llyn oherwydd roedd y disgo yn grêt! Fy atgof cynharaf oedd dod i'r ysgol am y tro cyntaf un.


- ★ Mae gen i ddau gi— eu henwau yw Honour a Sïdan
- ★ Fy hoff fwyd yw pasta pesto
- ★ Mae gen i frawd o'r enw Arwyn



Sophie

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Saesneg oherwydd rydw i'n mwynhau ysgrifennu. Rydw i hefyd yn mwynhau Celf oherwydd rydych chi'n gallu creu llanast! Rydw i'n mwynhau bod tu allan ym mhob math o dywydd, yn enwedig cesair. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn i chwarae fy ffliwt neu'r soddgrwth mewn cerddorfa enwog neu fod yn berchen ar fy ysgol gerdd fy hun. Fy atgof cynharaf o fy nghyfnod yn yr ysgol oedd pan oeddwn i yn y dosbarth Meithrin yn chwarae efo parasiwt ar yr iard ac fe laniodd hofrennydd yn y cae yr ochr arall i'r ffens. Rydw i hefyd yn cofio pan ddaeth Catrin, fy ffrind go-rau, i'r ysgol ym Mlwyddyn 1.

- ★ Rydw i'n aelod o Gerddorfa Plant Genedlaethol Prydain
- ★ Rwy'n mwynhau baeddu mewn mwd pan mae'n glawio!



Catrin

Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw Celf ac Addysg Gorfforol. Fy hoff fath o ymarfer corff ydy rhedeg pellter hir. Fy atgof cynharaf o fy nghyfnod yn yr ysgol ydy pan gerddais i i mewn trwy'r gatau, ym Mlwyddyn 1, ar ôl symud yma o Lundain. Fy hoff atgof ydy pan aethom i Wersyll yr Urdd Glan-llyn oherwydd roedd yn hwyl - y canŵio oedd orau gen i. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn i fod yn arlunydd.

- ★ Rydw i'n mynd i glwb Syrffio ac Achub Bywyd
- ★ Rwy'n hoffi bwyta pethau sy'n wahanol ac yn newydd i mi





Dylan

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Mathemateg, oherwydd rwy'n hoffi rhifau ac mae'n hwyl. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn ddyn busnes achos rwy'n hoffi cyfrifo elw. Fy hoff atgof o fy nghyfnod yn yr ysgol oedd cymryd rhan yn nhwrnament mathemateg Gêm 24 ym Mlwyddyn 6, achos enillodd ein tîm ni dros Geredigion i gyd. Fy atgof mwyaf doniol oedd gweld Mr James yn cerdded ar ei ddwylo! Roedd hefyd yn brofiad grêt bod yn aelod o'r Cyngor Ysgol eleni. Yn fy amser hamdden rwy'n mwynhau garddio achos rwy'n hoffi bwyta llysiau. Mae hi wedi bod yn wyth mlynedd wych yn yr Ysgol Gymraeg!



- ★ Rydw i'n nofio am bump awr bob wythnos
- ★ Mae popeth yn fy stafell wely yn wyrdd!



Seren


Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Celf. Rwy'n hoffi Celf oherwydd rydw i wedi gweld llawer o waith celf mewn amgueddfeydd ac maen nhw'n edrych yn ddiddorol iawn. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn i fod yn arlunydd a milfeddyg oherwydd dwi'n caru anifeiliaid a chelf. Hefyd, hoffwn i nofio yn y Gêmau Olympaidd oherwydd rwy'n dwlu ar nofio. Fy hoff atgof o fy nghyfnod yn yr ysgol oedd mynd i Wersyll yr Urdd Glan-Llyn oherwydd fe wnes i fwynhau mynd ar wahanol bethau yn y ddŵr, yn enwedig y canws.

- ★ Rwy'n caru nofio, ac yn mynd bedair gwaith yr wythnos
- ★ Mae gen i gi o'r enw Charlie a physgodyn o'r enw Twinkle!
- ★ Rwy'n ffan mawr o Selena Gomez a One Direction!!!



Dafydd

Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw Gwyddoniaeth oherwydd rwy'n hoffi gwneud arbrofion a dysgu sut mae cemegau yn gallu effeithio ar bethau, Celf oherwydd mae'n hwyl, a Hanes oherwydd mae'n ddiddorol dysgu am y gorffennol. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn archeolegydd oherwydd rwyf eisiau darganfod gwrthrychau hanesyddol a dysgu mwy sut fyddai pobl wedi byw canrifoedd yn ôl. Fy hoff atgofion o'r Ysgol Gymraeg oedd y daith i Gastell Henllys pan ddysgais sut i greu trap pysgodyn allan o ddarnau o bren, bod yn un o gapteiniaid Arthur pan enillodd fy nhŷ Eisteddfod yr ysgol, a'r gweithgareddau pan yn aros yng Nglan-llyn, yn enwedig syrthio i ddŵr Llyn Tegid!



- ★ Mae gen i gath o'r enw Mari
- ★ Rwy'n hoffi blasu gwahanol fwydydd pan fyddaf dramor



Tara

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw celf gyda Mr Griffiths oherwydd mae'n llawer o hwyl ac mae fy llun i o afal yn cael ei arddangos yn y neuadd ar yr arddangosfa 'Oriol Gelf'. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn i fod yn filfeddyg oherwydd rwy'n hoffi helpu anifeiliaid ac mae gen i anifeiliaid gwahanol iawn adre. Fy atgof cynharaf o fy nghyfnod yn yr ysgol yw cwmpo oddi ar yr olwynion ceir yn y dosbarth Meithrin a sgrechian nerth esgyrn fy mhen! Fy hoff atgof yw'r trip i Wersyll yr Urdd Caerdydd. Roeddwn i'n rhannu ystafell gyda Molly, Anna, Catrin, Seren a Llio. Cefais lawer o hwyl yn bowlïo deg. Bŵm yn brysur iawn ym Mlwyddyn 6 - fe wnes i gyflwyniad *PŵerBwynt* am acsolotlaid (*axolotles!*), a'r Plismona Bro gyda Gwern. Roeddwn i hefyd yn rhan o dîm cyflwyniad y Cwis Llyfrau a grwpiau llefaru a dawnsio creadigol Eisteddfod yr Urdd.



★ Mae gen i ddau acsolotl, dwy gath, tri physgodyn ac un wenci



Cian




Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol oherwydd rwy'n hoffi chware pêl-droed a rygbi yn yr ysgol. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn i fod yn rasiwr ceir proffesiynol a rasio ar draws y byd yn cynrychioli Cymru! Fy atgof cynharaf o fy nghyfnod yn yr ysgol yw yn y dosbarth Meithrin pan wnes i grasio mewn i wal wedyn dyma Gwydion yn crasio mewn i Gwilym ac yn dilyn hynny dyma Gwydion yn troi drosodd a chwympo mas o'r tractor! Fy hoff atgof yw pan enillon ni y twrnament pêl-droed ym Mlaendolau gyda'r ysgol - fe enillon ni'r cwpan eleni.

- ★ Rwy'n hoff iawn o wylïo pêl-droed a rasio Formula 1 ar y teledu.
- ★ Rwy'n chware pêl-droed i dîm pêl-droed Penrhyn Celts.



Seren

Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw Celf, Addysg Gorfforol a'r gwersi nofio oherwydd pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn athletwraig Olympaidd fel Jessica Ennis ac yn nofwraig, ac ar ôl hynny dwi eisiau bod yn arlunydd enwog. Fy hoff atgofion o'r Ysgol Gymraeg yw gwneud yn dda mewn cystadlaethau chwaraeon ym Mlwyddyn 6 - fe ddes i a fy ffrindiau yn gyntaf yn nhîm y merched yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Cenedlaethol Cymru, ac fe ddes i yn y 12^{fed} safle. Hefyd fe ddes i'n bedwerydd yn ras feicio Aberystwyth, a daeth ein tîm ni yn drydydd ac yn bedwerydd fel tîm ras gyfnewid yng ngala nofio'r Urdd yng Nghaerdydd.



- ★ Rwy'n hoffi actio a dawnsio
- ★ Rwy'n CARU chwaraeon o bob math



Aron

Fy hoff bwnc i yn yr ysgol yw Hanes oherwydd rwy'n hoffi dysgu am yr Ail Ryfel Byd. Pan fyddaf i'n hŷn hoffwn i fod yn bêl-droediwr enwog oherwydd rydw i wrth fy modd yn chwarae pêl-droed. Fy hoff atgof am yr Ysgol Gymraeg yw y disgo yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn oherwydd roedd cerddoriaeth dda yn chwarae yno. Mae Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn wych!

- ★ Fy hoff fwyd yw Risotto
- ★ Roeddwn i wrth fy modd yn chwarae hoci dros un o dîmau'r ysgol, Y Melit, eleni.



Peredur

Fy hoff bwnc yw Materion Cyfoes. Dwi ddim yn hollol siŵr beth hoffwn i fod pan rwy'n hŷn, ond rwy'n meddwl y bydd yn ymwneud mewn rhyw ffordd â rheoli arian. Fy hoff atgofion o'r Ysgol Gymraeg yw bod yng Ngwersylloedd yr Urdd Caerdydd a Glan-llyn am dridiau. Ces i lawer o hwyl yn y ddau le. Mae gen i lawer o atgofion chwithig o'r ysgol hefyd, yn anffodus, fel pan wnes i rwygo crys Ben, sydd bellach ym Mlwyddyn 7, yn ddamweiniol wrth chwarae pêl-droed! Hoff atgof arall yw pan gwrddais i â Robert am y tro cyntaf. Roedd e'n hoffi 'Power Rangers' ar y pryd! Mae hyn hefyd yn un o'r atgofion cynharaf sydd gen i o'r ysgol – ond yr atgof cynharaf un sydd gen i yw ymweld â'r ysgol am y tro cyntaf erioed.

- ★ Enillais y Goron a Tlws y Llwydiaid (sef Tlws y Llefarydd Gorau) yn Eisteddfod yr ysgol eleni.
- ★ Rwy'n ofni malwod, yn enwedig malwod du!



Caitlin

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn bensaer oherwydd rwy'n hoffi dylunio pethau. Fy hoff atgof o'r ysgol yw llynedd pan aethom i Wersyll yr Urdd Caerdydd am dridiau. Roedden ni ar ein ffordd adre, pan dorrodd ein bws ni lawr ar rîw serth iawn. Roedd hi'n bwrw glaw yn drwm iawn hefyd felly roedd rhaid i bawb ar y bws fynd i sefyll mewn stabl rhyw ddyn caredig er mwyn cysgodi! Yn lwcus i fi roedd yna geffylau yn y cae drws nesaf. Tua dwy awr yn ddiweddarach, daeth bws arall i'n casglu ni a mynd â ni nôl adref!

- ★ Rwy'n Caru anifeiliaid yn enwedig cathod, ceffylau a chwn.
- ★ Rwy'n hoffi gwneud ymarfer corff, yn enwedig marchogaeth ceffylau, a chwarae pêl-droed, hoci a phêl rwyd.






Charlie

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Hanes oherwydd rydyn ni wedi bod yn dysgu am yr Ail Ryfel Byd. Rydw i'n hoff iawn o awyrennau cyflym a rhai araf. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn beiriannydd a gyrrwr proffesiynol achos rwy'n hoffi ceir. Fy hoff brofiad yn yr Ysgol Gymraeg oedd mynd i Lan-llyn – yn bennaf oherwydd roedd y canŵio yn grêt.

- ★ Mae gennym dair gafr o'r enw Billy, Percy a Polo
- ★ Mae gen i feic cwad



Lisa

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol oherwydd rwy'n hoffi rhedeg a gwneud llawer o chwaraeon gwahanol. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn ddylunydd graffeg oherwydd rydw i'n hoffi celf a gwneud gwaith cyfrifiadurol. Fy hoff atgof o fy amser yn yr ysgol oedd pan enillais i'r cwpan llawysgrifen yn Eisteddfod yr ysgol eleni, neu pan enillais dlws y Victrix Ludorum yn y mabolgampau yn 2011.


- ★ Mae gen i gi o'r enw Macsen a dau fochyn cwta
- ★ Rwy'n caru rhedeg
- ★ Rwy'n hoff iawn o gelf, a fy enw canol i, sef Jemima, yw enw fy modryb sy'n arlunydd



Gwydion

Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw y Daearyddiaeth ac Addysg Gorfforol oherwydd eu bod yn llawer o hwyl. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn yrrwr rali ac yn ffermwr. Fy atgof cynharaf o fy nghyfnod yn yr ysgol yw yn y dosbarth Meithrin pan wnaeth Cian 'road block' ac wedyn fe wnes i fwrw mewn i Gwilym ac roedden nhw'n crio trwy'r prynhawn! Roedd yn gyfnod da yn y Meithrin – y cyfan wnaethon ni oedd chwarae a lliwio!

- ★ Mae fy ffrindiau'n dweud fy mod yn gallu rhedeg yn gyflym
- ★ Mae gen i feic cwad
- ★ Mae gen i dri ci defaid ac un 'huntaway'





Gwenllian

Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol, Cymraeg, Saesneg a Dylunio a Thechnoleg. Pan fyddaf yn hŷn rwy eisiau bod yn athrawes, dynes trin gwallt neu helpu i edrych ar ôl cŵn. Fy hoff atgof o fy nghyfnod yn yr Ysgol Gymraeg oedd mynd i Wersyll yr Urdd Glan-llyn a chwmpo mewn pen yn gyntaf i'r llyn ar y canŵs a mynd yn wlyb sopen. Ond mwynheais i bopeth yno â dweud y gwir.

- ★ Rwy'n caru anifeiliaid
- ★ Rwy'n caru ymarfer corff
- ★ Mae fy mysedd i i gyd yn gam!



Tyler

Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw Mathemateg, Hanes a Daearyddiaeth. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn seryddwr achos dwi'n hoffi astudio'r gofod. Fy hoff atgof o'r Ysgol Gymraeg oedd yn y disgo yng Nglan-llyn, achos roedd yna oleuadau llachar a llawer o ganeuon da fel 'Gangnam Style'!

- ★ Rwy'n chwarae'r Clarinét, ac roeddwn i'n aelod o gerddorfa'r ysgol eleni ac o Gerddorfa Ceredigion ar gyfer Cyngerdd Proms Blwyddyn 6
- ★ Fy hoff gonsôl gēmau yw'r X-Box



Elsie

Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw Hanes a Chelf oherwydd rwy'n hoffi darganfod hanes pethau a dwi'n hoffi tynnu lluniau. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn naill ai fod yn brif weinidoges neu yn fio-cemegydd oherwydd fy mod yn hoffi gwneud penderfyniadau ac arbrofi gyda chemegau. Fy hoff atgof yw cael cynifer o athrawon arbennig yn fy nysgu ers i mi ddechrau yn yr ysgol ym Mlwyddyn 2. Dau hoff atgof arall yw pan oeddwn yn creu lloches ym Mlwyddyn 5 a reid ffair ym Mlwyddyn 6. Roedd hynny'n llawer o hwyl!

- ★ Mae gen i un llygad glas ac un llygad brown
- ★ Dwi'n casau One Direction!!
- ★ Dwi'n hoffi siarad (gan gynnwys actio)!






Siencyn

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Celf oherwydd mae e'n llawer o hwyl. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn bensaer achos rydw i wrth fy modd yn dylunio adeiladau. Fy hoff brofiad yn ystod fy nghyfnod yn yr ysgol oedd mynd i Lan-Ilyn. Hoffais Glan-Ilyn fwyaf oherwydd roedd y disco yn llawer o sbort!


- ★ Fy hoff fwyd yw hufen iâ blas mefus.
- ★ Mae gen i gi o'r enw Elsa, a neidr hefyd!
- ★ Mae gen i ddau bâr o sbectol.



Eliw

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Celf oherwydd mae'n hwyl. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn bensaer neu yn ffotograffydd oherwydd maent yn swmio fel swyddi gwych. Fy hoff atgof yn yr ysgol oedd y gwersi Celf ym Mlwyddyn 5 ac eleni.


- ★ Rwy'n chwarae'r delyn a'r Clarinét.
- ★ Fe ddes i'n ail yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod yr ysgol eleni.
- ★ Rwy'n llysiuwaig.



Huw

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol oherwydd rwy'n hoffi chware pêl-droed a gwneud nifer o chwareon eraill. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn chwarae pêl-droed dros Gymru a Chaerdydd. Fy hoff atgof o fy nghyfnod yn yr ysgol yw cymryd rhan ym mhob ras feics *Halfords* a dod yn 5ed, 10fed a 15fed. Fe wnes i hefyd fwynhau rhedeg mewn cystadlaethau trawsgwlad a chwarae pêl-droed dros dîm yr ysgol.

- ★ Rwy'n hoff iawn o bêl-droed a rhedeg.
- ★ Rwy'n cefnogi tîm pêl-droed Caerdydd.
- ★ Rwy'n chware pêl-droed i dîm Teirw Tal-y-bont.





Esyllt

Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw Cymraeg, Cerdd ac Addysg Gorfforol. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn weithio i wasg y *Lolfa* gan taw fy nhad-cu sefydlodd y *Lolfa*! Fy hoff atgof o fy amser yn yr ysgol oedd pan chwareais i bêl-rwyd dros dîm yr ysgol ym Mlwyddyn 6 yn safle'r GS (*goal shooter*).

- ★ Rydw i wrth fy modd yn gwnio
- ★ Rwy'n casáu bandiau pop!



Joe

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Celf oherwydd rwy'n hoffi braslunio, a rwy'n hoffi Mathemateg hefyd. Fy hoff atgof o fy amser yn yr ysgol yw pan aethom ni i Wersyll yr Urdd Glan-llyn ym Mlwyddyn 6 a gwneud yr holl weithgareddau gwahanol yno. Fy hoff weithgareddau oedd canwio ac adeiladu rafft. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn i fod yn fecanig neu yn ffermwr.

- ★ Rwy'n hoffi gyrru *go-carts*.
- ★ Rwy'n hoffi coginio.
- ★ Fy hoff raglen deledu yw *Top Gear*.



Eleanor

Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw Celf a Hanes, oherwydd rwy'n hoffi gwneud mathau gwahanol o gelf, e.e. peintio neu ddefnyddio pastelau, a rwy'n hoffi dysgu ffeithiau hanesyddol, yn enwedig am yr Ail Ryfel Byd. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn weithio gydag anifeiliaid oherwydd dwi wir yn hoffi anifeiliaid, neu weithio fel beirniad ar *Britain's Got Talent*! Fy hoff atgof o fy amser yn yr Ysgol Gymraeg oedd mynd i Lan-Llyn oherwydd roedd yn llawer o hwyl gwneud gwahanol weithgareddau ar y llyn. Roedd cymryd rhan yn ymgom yr ysgol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd yn wych hefyd.

- ★ Mae gen i gath or enw *Kit-Kat*.
- ★ Fy hoff chwaraeon yw pêl-rwyd.
- ★ Dwi'n caru siocled ond yn casáu siocled tywyll!





Siôn

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol oherwydd mae'n hwyl ac rwy'n dda ynddo. Enillais i'r Victor Ludorum eleni am ennill y mwyaf o bwyntiau i fy nhŷ. Pan rwy'n hŷn hoffwn i fod yn chwaraewr sboncen proffesiynol.

- ★ Rwy'n ffan mawr o sboncen a phêl-droed
- ★ Rydw i'n hoff iawn o siocled



Anna

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw ymarfer corff oherwydd rydw i'n hoffi chwarae rownderi a phêl-rwyd. Pan rwy'n hŷn hoffwn i fod yn filfeddyg oherwydd rydw i'n hoff iawn o anifeiliaid. Fy atgof cynharaf o fy nghyfnod yn yr ysgol yw chwarae ar y beiciau bach yn y Meithrin. Fy hoff atgof yn yr ysgol oedd mynd i Wersyll yr Urdd Caerdydd oherwydd roeddwn i'n hoffi mynd i'r pwll nofio enfawr a mynd lawr y llithren ddŵr.

- ★ Mae gen i gathod o'r enw Twm a Dwdyn.
- ★ Roeddwn i yn aelod o Gôr Ceredigion eleni.
- ★ Enillais wobr am greu Lego ym Mlwyddyn 3.



Robert

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Saesneg oherwydd dwi'n mwynhau darllen llyfrau Saesneg. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn athro oherwydd dwi'n dda am wneud cyflwyniadau ac am gywiro camgymeriadau. Hoffwn i ddysgu Blwyddyn 6. Does gen i ddim hoff atgoff o Flwyddyn 6 oherwydd rydw i wedi mwynhau pob eiliad o'r ysgol, er enghraifft bod yn Gadeirydd y Cyngor Ysgol eleni a chwarae i dîm hoci'r Sêr.

- ★ Dwi'n ffan enfawr (a dwi'n golygu ENFAWR!) o Lego
- ★ Dwi ddim yn dda am redeg. Dwi wastad yn baglu!





Sioned

Fy niddordebau yw nofio a chwaraeon. Rydw i wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ystod y flwyddyn mewn amrywiol gampau a fy uchelgais yw bod yn nofiwraig broffesiynol. Rwy'n mwynhau astudio Gwyddoniaeth, a Bioleg yn enwedig. Fy hoff atgofion i yn ystod fy nghyfnod yn yr Ysgol Gymraeg oedd mynd ar y daith i Lanllyn, a hefyd pan ddaeth ein tîm rhedeg ras gyfnewid yn gyntaf mewn cystadleuaeth yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar. Rydw i wedi mwynhau fy nghyfnod yn yr Ysgol Gymraeg yn fawr ond dwi hefyd yn edrych ymlaen at y dyfodol.

★ Rwy'n CARU pob math o chwaraeon

★ Cafodd fy enw canol sef 'Kennedy' ei ddewis ar ôl un o arlywyddion America



Jack

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol oherwydd pan fyddaf yn hŷn hoffwn i fod yn bêl-droediwr. Fy hoff atgof o fy amser yn yr Ysgol Gymraeg oedd y daith i Lan-llyn oherwydd roedd y canŵio'n grêt a roeddem yn cael bwyta curly fries!

★ Dwi'n hoffi losin a siocled.

★ Fy hoff beth y tu allan i'r ysgol yw dringo coed.

★ Fy hoff raglenni teledu yw CITV a'r Simpsons.



Rosa-Lea

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol oherwydd rwy'n hoffi gwneud y naid uchel yn y mabolgampau ac rwy'n hoffi chwarae pêl-droed. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn i fod yn filfeddyg. Fy hoff atgof o fy amser yn yr ysgol oedd pan oedd Eva a fi yn y dosbarth Meithrin. Roedden ni'n chwarae siop trin gwallt -torrodd Eva fy ngwallt i a thorraais i ei gwallt hi hefyd! Roedd y canŵs yng Nglan-llyn ym Mlwyddyn 6 yn llawer o hwyl hefyd.

★ Rwy'n hoffi pob math o chwaraeon.

★ Rwy'n caru anifeiliaid.

★ Rwy'n hoff iawn o farchogaeth.





Rhys

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol oherwydd dwi'n hoff iawn o bêl-droed a nofio a rydw i'n aelod o dîm nofio'r ysgol. Hefyd rwy'n hoffi Saesneg gan fy mod yn hoffi darllen llyfrau Saesneg cyffrous. Fy hoff atgof o fy nghyfnod yn yr ysgol yw pan aethom ni i Lan-llyn, yn enwedig y canŵio, a'r antur ar y ffordd 'nôl o Wersyll yr Urdd Caerdydd y llynedd!


- ★ Hoffwn fod yn beilot awyrennau ar ôl gadael yr ysgol
- ★ Rwy'n treulio pob gwyliau haf gyda fy nheulu yng Nghanada



Catrin

Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw Celf, Cerdd ac Addysg Gorfforol oherwydd maen nhw'n hwyl. Pan fyddaf yn hŷn rydw i eisiau perfformio ar lwyfan yn canu, dawnio ac actio. Fy hoff atgof o fod yn yr Ysgol Gymraeg oedd pan enillodd tîm hoci'r Mellt y cwpan a'r gynghrair eleni. Hefyd hoffais yr amser pan aethon ni i Lan-llyn, yn enwedig pan aethon ni ar y canŵs a chwympo mewn i'r llyn!


- ★ Rydw i'n perthyn i'r gantores enwog Shân Cochi!
- ★ Mae gen i bysgodyn o'r enw Maci.
- ★ Fe gymerais ran ym mhantomeim Aladdin yng Nghanolfan y Celfyddydau ar ddechrau'r flwyddyn eleni.



Rhys

Rydw i wedi mwynhau bod yn yr Ysgol Gymraeg a fy hoff bwnc yw Celf. Mae'r gwersi celf gyda Mr Griffiths yn wych ac yn un o uchafbwyntiau'r wythnos i fi. Pan rydw i'n hŷn, hoffwn i fod yn chwaraewr hoci proffesiynol. Un o fy hoff atgofion yw pan enillais rownd gyntaf cystadleuaeth Cogurdd yr ysgol 'nôl ym mis Ionawr. Cefais hwyl mas draw pan aethom am dridiau i Wersyll Glan-llyn hefyd - fy hoff weithgaredd yno oedd y canŵio a'r daith llyn.

- ★ Rwy'n hoffi chwarae'r drymiau
- ★ Rwy'n hoff iawn o geir 'sporty'!





Gwenllian

Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol a Chelf oherwydd eu bod nhw'n hwyl. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn filfeddyg oherwydd mae Mam a Dad yn filfeddygon a rwy'n hoff iawn o anifeiliaid. Fy hoff atgof o fy nghyfnod yn yr Ysgol Gymraeg oedd pan es i ar y llwyfan yn Eisteddfod yr ysgol pan oeddwn i llawer yn iau ac anghofio'r geiriau a gofyn i Mr Williams, "Wyt ti'n gwybod y geiriau?!"

- ★ Rwy'n Caru anifeiliaid, yn enwedig cwn, Cathod a cheffylau.
- ★ Rwy'n hoffi pêl-droed, hoci, sgïo, marchogaeth, gymnasteg a rygbi.
- ★ Enillais dlws Cyfeiriannu Cymru i ferched o dan 11 oed y llynedd.



Gwern

Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw Mathemateg, Celf ac Addysg Gorfforol. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn wyddonydd neu ddyfeisiwr er mwyn gwneud pethau fydd o werth i bobl. Fy hoff atgof o'r Ysgol Gymraeg yw mynd i Quakers ym Mlwyddyn 2, canu ac actio yn y gân actol, ac mynd i wersylloedd yr Urdd. Mae'n anodd anghofio am y ffordd nôl o Gaerdydd wrth i fws blwyddyn 5 (ar y pryd) fynd yn sownd wrth ddilyn y 'SatNav' ar hyd ffordd gul a throellog!

- ★ Rwyf wedi torri fy mysedd bawd ar fy nwy droed.
- ★ Rwy'n hoffi pysgota'n fawr iawn ond dwi heb ddal pysgodyn o'r traeth eto.
- ★ Fi yw penCampwr Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth 2013 am fwyta bisgedi siocled o fewser cyflymaf (heb ddefnyddio fy nwylo!).



Megan

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol oherwydd rwy'n hoffi chwarae hoci a phêl-droed. Fy atgof cynharaf yw bod yn y dosbarth Meithrin yn adeiladu tŷ hefo blociau, ac roedd y merched yn mynd mewn olwyn car a'r bechgyn yn ein gwthio ni rownd a rownd. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn i weithio mewn siop harddwch. Fy hoff atgof yn yr Ysgol Gymraeg yw clywed Mr. Morgan yn 'beatbocsio'.

- ★ Mae gen i bedwar ceffyl o'r enw Bugsy, Jade, Georgie a Dotty.
- ★ Mae gen i ddau gi o'r enw Belle a Molly.
- ★ Rwy'n mwynhau mynd i feicio gyda Mam a fy mrodyr Rhys a Ceri.





Aaron

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Celf oherwydd mae e'n hwyl. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn gynllunydd gêmau cyfrifiadurol. Fy hoff atgof o fy amser yn yr Ysgol Gymraeg oedd pan aethom ni i'r Gerddi Botaneg ym Mlwyddyn 6 a prynais i bry copyn plastig a rhoddodd Dafydd a fi y pry copyn ar y fainc lle roedd y rhan fwyaf o ferched Blwyddyn 6 yn eistedd, a gwelodd y merched y pry copyn a SGRECHIAN dros y lle!!!! Roedd Dafydd a Rhys a fi yn chwervthin nerth ein pennau!!!

- ★ Cefais i ail yn Eisteddfod yr ysgol am fy ngherdd Saesneg 'Through My Window' eleni.
- ★ Y gêm gyfrifiadurol gyntaf i fi chwarae oedd *Sonic the Hedgehog* ac rwy'n dwlu ar *Sonic* o hyd.



Esyllt

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Gwyddoniaeth oherwydd mae e'n ddiddorol iawn. Dydw i ddim yn siŵr beth fyddaf i pan fyddaf yn hŷn ond fy mreuddwyd yw bod yn actores neu'n gantores bop. Fy atgof cynharaf o fy nghyfnod yn yr Ysgol Gymraeg yw chwarae yn y pwll tywod yn y dosbarth Meithrin a dod gartref bob dydd yn wlyb iawn! Fy hoff atgof oedd mynd i Wersyll yr Urdd Glan-llyn, oherwydd fe wnes i fwynhau mynd yn wlyb iawn yn y dŵr! Hefyd fe gefais i amser da yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ar hyd y blynyddoedd, ac yn enwedig eleni gyda'r grŵp dawnsio aml-gyfrwng.

- ★ Mae gen i foch cwta o'r enw Caio a Gwyndaf.
- ★ Cefais un o'r prif rannau mewn sioe bale pan oeddwn i yn Mlwyddyn 6.
- ★ Enillais i'r Cwpan Cywaith yn Eisteddfod yr ysgol eleni.



Molly

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol oherwydd mae'n hwyl ac rydw i'n mwynhau taflu pwysau a dawnsio. Rydw i wedi gwneud llawer o sioeau yng Nghanolfan y Celfyddydau dros y blynyddoedd. Fy hoff atgof yn yr Ysgol Gymraeg yw mynd i Wersyll yr Urdd Caerdydd oherwydd roeddwn i'n rhannu ystafell gyda fy holl ffrindiau gorau, ac roedd y bowlïo deg yn hwyl. Fy atgof cynharaf yw fy niwrnod cyntaf yn yr ysgol - roeddwn i'n adnabod Sara yn barod.


- ★ Rwy'n hoff iawn o hufen iâ, yn enwedig blas gwm chnoi.
- ★ Rwy'n cael gwersi dawns bedair gwaith yr wythnos.



Rhodri

Fy hoff bwnc yn yr ysgol ydy Addysg Gorfforol oherwydd rwy'n hoffi pêl-droed, rygbi, hoci, beicio a thennis. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn i fod yn yrrwr car Formula 1 proffesiynol oherwydd rwy'n hoffi ceir. Yn ddelfrydol hoffwn i yrru i dîm *Ferrari* neu *Red Bull*. Fy hoff atgof o fy nghyfnod yn yr ysgol oedd mynd i Wersyll yr Urdd Glan-llyn. Roeddwn i'n hoffi'r canwio a'r cwrs rhaffau yn bennaf. Atgof da arall oedd ennill y twrnament pêl-droed yn Aberystwyth eleni. Enillon ni ar giciau o'r smotyn, ac fe sgoriais i un ohonynt!


- ★ Sgoriais i ddwy gôl wrth gymryd ciciau cornel yn nhwrnament pêl-droed Ceredigion eleni.
- ★ Rydw i'n chwarae i dîm pêl-droed Aberystwyth.



Ella

Fy hoff bynciau yn yr ysgol yw Celf ac Addysg Gorfforol, yn enwedig rownderi. Hoffwn i weithio i elusen gwarchod cŵn pan fyddaf yn hŷn. Fy hoff atgof yw pan ddaeth Catrin Dafis i'r Ysgol Gymraeg oherwydd hi oedd y ferch gyntaf i ymuno â'r dosbarth ers y Meithrin!!! A phan aethom ni i Wersyll Glan-llyn - roedd hynny'n llawer o hwyl.

- ★ Rydw i'n ffan enfawr o *One Direction*, yn enwedig Zayn Malik.
- ★ Mae gen i bedair cath o'r enw Maisy, Coco, Harvey a Domino (mae Maisy wedi cael 17 cath fach yn ystod ei bywyd!).
- ★ Rydw i'n hoff iawn o anifeiliaid.



Will

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol oherwydd rwy'n aelod o lawer o dîmau chwaraeon, gan gynnwys pêl-droed, pêl-rwyd a hoci. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn chwaraewr pêl-droed proffesiynol oherwydd pêl-droed yw fy hoff chwaraeon. Hoffwn i chwarae dros dîm Lerpwl. Fy hoff atgof o fy nghyfnod yn yr ysgol yw ennill twrnament pêl-droed Ceredigion - sgoriais i bedair gôl i gyd! Atgof da arall yw ennill twrnament pêl-rwyd ysgolion cylch Aberystwyth.

- ★ Rwy'n aelod o dîmau pêl-droed Aberystwyth a Cheredigion.
- ★ Rwy'n ymarfer pêl-droed saith gwaith yr wythnos!






Sara

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw Addysg Gorfforol, oherwydd rwy'n hoffi rhedeg ac mae'n hwyl. Pan fyddaf yn hŷn hoffwn fod yn actores, neu'n athrawes ddawns. Fy hoff atgof o fy nghyfnod yn yr ysgol yw'r disgo yng Nglan-llyn, roeddwn i a fy ffrindiau i gyd yn dawnsio'n hwyr y noson honno. Fy atgof mwyaf doniol yw clywed Mr. Morgan yn 'beatbocsio'! Roedd hefyd yn brofiad grêt bod yn aelod o dîm Cwis Llyfrau'r ysgol a'r grŵp dawns amlgyfrwng eleni. Yn fy amser hamdden rwy'n hoff iawn o ddawnsio - rwy'n cael gwersi bale, tap a modern. Mae wedi bod yn wych bod yn ddisgybl yn yr Ysgol Gymraeg!

- ★ Rwyf wedi bod yn aelod o dîm dawns Canolfan y Celfyddydau ers pum mlynedd!
- ★ Mae gen i chwe chi o'r enw Bell, Blue, Bes, Jimbo, Jack a Dyfi (mae Dyfi newydd gael pump ci bach.)
- ★ Rwy'n dawnsio am chwe awr yr wythnos.



Pob hwyl i chi i gyd yn
yr Ysgol Uwchradd

Uchafbwyntiau



Chwaraeon 2012-2013



Nôl ym mis Medi cychwynnodd y gynghrair hoci ar gaeau astro'r Brifysgol. A diolch i un o fusnesau brodio'r dre, Ffigar, roedd gan un o'r timau git newydd sbon i chwarae ynddo.

Yn y llun gweler Mr Williams y Pennaeth a Mr Gari Appleton o Ffigar gyda thîm hoci 'Mellt'. Eleni roedd gan yr ysgol bedwar o dimau a fu'n chwarae'n wythnosol yn y gynghrair. Roedd tymor hir ac anodd yn eu disgwyl...

Llongyfarchiadau i griw o fechgyn blwyddyn 6 a lwyddodd i ennill twrnament pêl-droed ar gyfer rhai dan 11 oed. Cynhaliwyd y twrnament er cof am Gary Pugh ar gaeau Blaendolau dros benwythnos ym mis Medi.

Llwyddodd y 'Penrhyn Celts' i ennill 5 o'u gêmau, chwarae dwy gêm gyfartal a cholli un.

Da iawn fechgyn!



"Heddiw, rhwng 12.30 ac 1.30, fe fuom yn dysgu sut i chwarae golff gyda Jack Roberts a Gwilym Williams. Y dechneg y buom ni'n dysgu heddiw oedd pytio. Yn gyntaf dangosodd Jack sut i fwrw'r bêl yn gywir gyda pytiwr - roedd hi'n anodd iawn i gael y bêl i ganol y disgiau targed! Wedyn, fe gawsom ni ein rhannu mewn i bedwar grwp, i drïo bwrw côn o wahanol bellter. Y targed gyntaf oedd tua 1 metr, wedyn fe aeth e'n ddau fetr, a gan fod amser yn brin, fe aethom yn syth i tua 15 metr! Cawsom ni amser gwych a dwi'n siwr y bydd llawer yn dechrau mynd i'r clwb lleol i ymarfer!"

Peredur, Dosbarth 6J



Uchafbwyntiau Chwaraeon



Llongyfarchiadau i griw o blant yr ysgol a fu'n llwyddiannus iawn dros y penwythnos yng nghystadleuaeth gala nofio Adasc a gynhaliwyd yn Aberystwyth.

Llongyfarchiadau i'r naw o ferched a aeth i gystadlu yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Rhanbarthol yr Urdd.

Cystadlodd y merched yng nghystadleuaeth y triawdau, gyda thriawd Gwenllian, Sofie a Niamh yn dod yn ail, a thriawd Sioned, Lisa a Nicole yn drydydd. Ni lwyddodd y triawd ieuengaf Lucie, Hannah a Lili i ennill medal ond gwnaethant berfformio yn arbennig o dda.

Da iawn chi, ferched, a diolch i'r Urdd am drefnu bore arbennig o gystadlu.



Aeth dros gant o blant yr ysgol i redeg yn y gystadleuaeth traws gwlad ar gyfer Cylch Aberystwyth a gynhaliwyd ar Gaeau'r Ficerdy.

Roedd yna rasys ar gyfer bechgyn a merched o flynyddoedd 3 i 6, gyda dros 600 o ddisgyblion y cylch yn cystadlu i gyd.

Yn y llun gweler Rhys, Iestyn ac Ellis yn arwain y ras i fechgyn blwyddyn 4.

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.

Uchafbwyntiau Chwaraeon



Aeth dros gant o blant yr ysgol i redeg yn y gy-stadleuaeth traws gwlad ar gyfer Cylch Aberystwyth a gynhaliwyd ar Gaeau'r Ficerdy.

Roedd yna rasys ar gyfer bechgyn a merched o flynyddoedd 3 i 6, gyda dros 600 o ddisgyblion y cylch yn cystadlu i gyd.

Yn y llun gweler Rhys, Iestyn ac Ellis yn arwain y ras i fechgyn blwyddyn 4.

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.

Llongyfarchiadau mawr i'r tri yma ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth Traws Gwlad yr Urdd a gynhaliwyd yn Aberaeron yn ystod mis Ebrill.

Llwyddodd Rhys o flwyddyn 4 a Sion o flwyddyn 6 i ennill eu rasys hwy,

Da iawn chi redwyr, a da iawn i bawb arall a deithiodd i lawr i Aberaeron i gymryd rhan yn y rasys.



Llongyfarchiadau i redwyr traws gwlad yr ysgol a llwyddodd i gipio Pencampwriaeth Traws Gwlad Cenedlaethol yr Urdd ar gaeau Blaendolau ym mis Mai.

Cyflwynwyd tarian Clwb Athletau Aberystwyth iddynt, gyda'r ysgol yn ennill y nifer uchaf o bwntiau ym mhob ras.

Uchafbwyntiau Chwaraeon



Llongyfarchiadau i Sioned o Flwyddyn 6 ar ei llwyddiant arbennig yn ystod wythnos gwyliau'r Sulgwyn eleni.

Cafodd Sioned wythnos brysur iawn rhwng popeth, gan gystadlu mewn Acwathon ym Machynlleth lle y cipiodd y wobr gyntaf, yna'n rhedeg mewn Ras Hwyl yn Aberaeron lle cipiodd yr ail wobr, ac yn olaf bu'n nofio yn Llanelli gan ddod yn drydydd.

Da iawn ti, Sioned.

Llongyfarchiadau i dîm hoci'r Sêr am gyrraedd rownd derfynol y cwpan ar nos Wener y 10fed o Fai.

Mewn gêm agos iawn, bu'r tîm yn anffodus o golli o un gôl yn y rownd derfynol, ar ôl cyrraedd trwy guro tîmau arbennig o dda a chystadleuol yn y rowndiau cyn-derfynol.

Da iawn chi, Sêr.



Llongyfarchiadau i dîm Hoci'r 'Mellt' ar ennill cynghrair hoci ysgolion Aberystwyth.

Bu'r tîm yn chwarae bob nos Wener ar faes amldefnydd y brifysgol ers mis Medi, a llwyddodd y tîm i fynd drwy'r tymor heb golli gêm. Da iawn chi am eich ymdrech a diolch yn fawr am gynrychioli'r ysgol mor dda.

Mi fydd y tymor newydd yn cychwyn ym mis Medi 2013 ac mae croeso mawr i unrhyw ddisgybl o flynyddoedd 5 a 6 sydd am gymryd rhan.



Uchafbwyntiau Chwaraeon



Llongyfarchiadau i dîm Pêl-rwyd yr ysgol ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth Pêl-rwyd Cylch Aberystwyth a drefnwyd gan yr Urdd.

Byddant yn awr yn mynd ymlaen i'r gystadleuaeth nesaf - Ceredigion.

Pob hwyl i chi yn y rownd nesaf.

Llongyfarchiadau i dim pêl-rwyd yr ysgol ar eu llwyddiant diweddar yn nhwrmament Pêl rwyd ysgolion Cylch Aberystwyth.

Cynhaliwyd y twrnament ar gyrtiau'r Ganolfan Hamdden gyda'r plant yn llwyddo i ennill pob un o'i gêmâu yn ystod y prynhawn.

Da iawn chi, blant.



Llongyfarchiadau i dim pêl droed merched yr ysgol ar gystadlu mor dda yn

nhwrmament yr Urdd yn ystod mis Ebrill.

Cynhaliwyd y gêmâu ar gaeau Blaendolau, gyda'r tim yn cystadlu'n frwd yn erbyn ysgolion eraill sir Ceredigion.



Uchafbwyntiau Chwaraeon



Cafwyd diwrnod bendigedig o ran tywydd a chystadlu ar gyfer ein Mabolgampau Ysgol eleni.

Cystadlodd pawb yn frwd o'r Meithrin i flwyddyn 6, gan redeg, taflu a neidio gyda'r gorau er mwyn ennill marciau i'w gwahanol dai.

Yn ennill tlws y Victrix Ludorum eleni, sef y ferch i ennill y mwyaf o bwyntiau i'w thŷ, oedd Madeleine o flwyddyn 5; ac aeth y Victor Ludorum i Siôn o flwyddyn 6.

Y tŷ buddugol ar ddiwedd yr holl gystadlu oedd Dewi (208 pwynt), yn ail Caradog (207 pwynt) ac Arthur yn drydydd (194 pwynt).

Llongyfarchiadau i dim pêl-droed yr ysgol ar eu llwyddiant diweddar yn nhwrnament Pêl droed ysgolion Cylch Aberystwyth. Cynhaliwyd y twrnament ar gaeau Blaendolau gyda'r bechgyn yn llwyddo i ennill pob un o'i gêmâu gan gynnwys gêm derfynol agos iawn. Roedd y gêm mor agos fel y bu'n rhaid penderfynu trwy giciau o'r smotyn.

Da iawn chi, fechgyn.



Llongyfarchiadau i griw o blant yr ysgol a fu'n llwyddiannus iawn dros y penwythnos yng nghystadleuaeth gala nofio Adasc a gynhaliwyd yn Aberystwyth.

Uchafbwyntiau Chwaraeon



Llongyfarchiadau mawr i bawb a deithiodd i lawr i Gaerfyrddin ar gyfer Mabolgampau Dyfed eleni. Llwyddodd tîm yr ysgol i ddod yn ail mewn cystadleuaeth a oedd yn cynnwys tua hanner cant o ysgolion cynradd.

Ymhlith y disgyblion a ddaeth i'r brig yn eu cystadlaethau oedd:

1af - Ras Gyfnewid y Merched

2il - Lisa Cowdy - 100m

4ydd - Gwenllian Thomas - Clwydi

4ydd - Caitlin Davies - Taflu Pwysau

4ydd - Ras Gyfnewid y Bechgyn

5ed - Rhodri Thomas - Naid Hir

Llongyfarchiadau gwresog i Niamh o flwyddyn 3 ar ei champ anhygoel yn ystos mis Chwefror.

Llwyddodd Niamh i ennill y fedal aur mewn cystadleuaeth Tymbl i ferched 8 mlwydd oed mewn cystadleuaeth genedlaethol a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru.

Braf yw gweld Niamh yn datblygu i fod yn gymnastwraig penigamp - dal ati Niamh.



Yn dilyn eu llwyddiant yn nhwrnament griced 50/50 y sir yn ddiweddar, aeth disgyblion Blwyddyn 4 i Gaerdydd ar gyfer cystadlu yn y gystadleuaeth genedlaethol.

Llwyddodd y criw i ennill pob un o'r daith gêm gychwynnol, cyn colli yn y gêm gyn-derfynol.

Anlwcus blant, ond llongyfarchiadau mawr ar chwarae criced arbennig o dda yn ystod yr haf.



Uchafbwyntiau Chwaraeon



Llongyfarchiadau mawr i un o dîmau hoci'r ysgol, Mellt, ar eu camp anhygoel unwaith eto. Ychydig dros fis yn ôl enillodd Mellt y gynghrair, a nawr maent wedi ennill y Cwpan hefyd. Y tro diwethaf i dîm o'r ysgol ennill y gynghrair a'r cwpan yn yr un flwyddyn oedd pymtheg mlynedd yn ôl!

Llongyfarchiadau mawr i Mellt a thîmau eraill yr ysgol am gystadlu mor frwdfrydig yn ystod y tymor hoci, a diolch hefyd i'r holl staff sydd wedi bod yn hyfforddi a chefnogi'r tîmau yn ystod y tymor.

Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yng nghystadleuaeth rhanbarthol Gala Nofio'r Urdd eleni.

Canlyniadau (3 uchaf)

Blwyddyn 3 a 4

1af - Rhys Evans - Rhydd

1af - Rhys Evans - Pili Pala

1af - Ras Gyfnewid Rhydd Bechgyn

2il - Alaw Davies - Rhydd

2il - Ras Gyfnewid Cymysg Merched

2il - Ras Gyfnewid Rhydd Merched

3ydd - Alaw Davies - Broga

Blwyddyn 5 a 6

1af - Sioned Wallwork - Broga

1af - Sion Evans - Rhydd

1af - Ras Gyfnewid Rhydd Merched

1af - Ras Gyfnewid Cymysg Merched

2il - Ras Gyfnewid Cymysg Bechgyn

2il - Seren Griffith - Cefn

2il - Aron Parry - Cefn

3ydd - Sioned Wallwork - Cymysg





Ysgol Gymraeg Aberystwyth

2013